

Maddeuant

O gydnabod ein pechodau a throi ein calon a'n meddwl yn edifeiriol oddi wrthym ein hunain tuag at Dduw y profwn ei faddeuant yn gweithredu ynom. Boed i ni gael ein gwella, ein glanhau, ein puro a'n hadfer gan ei faddeuant.

EMYNAU

Fy nyhead yw i ti, O Dduw, ddweud wrthyf yn bersonol dy fod yn maddau i mi:

Gwasgara'r tew gymylau
 oddi yma i dŷ fy Nhad,
 datguddia imi beunydd
 yr iachawdwriaeth rad,
 a dywed air dy hunan
 wrth f'enaid clwyfus, trist
 dy fod yn maddau 'meiau
 yn haeddiant Iesu Grist.

Morgan Rhys (*Caneuon Ffydd*: 191)

Mae dy waith yn y Cread yn rhyfeddol ond llawer mwy yw dy waith yn maddau i bechadur:

Duw mawr y rhyfeddodau maith,
 rhyfeddol yw pob rhan o'th waith,
 ond dwyfol ras, mwy rhyfedd yw
 na'th holl weithredoedd o bob rhyw:
 pa dduw sy'n maddau fel tydi
 yn rhad ein holl bechodau ni?

Samuel Davies *cyf.* J. R. Jones (*Caneuon Ffydd*: 216)

Er ein bod yn pechu ac yn dy dristáu, 'O Dduw na wrthod fi':

Er bod yn euog o dristáu
 dy Ysbryd Sanctaidd di,
 a themtio dy amynedd mawr,
 O Dduw, na wrthod fi.

Thomas Haweis *efel*. Ieuan Glan Geirionydd (*Caneuon Ffydd*: 284)

Ai fy mhechodau i a yrrodd Iesu i'r Groes? Maddau fy mai:

Fy meiau trymion, luoedd maith,
 a waeddodd tua'r nen,
 a dyna pam 'roedd rhaid i'm Duw
 ddioddef ar y pren.

Isaac Watts *efel*. William Williams (*Caneuon Ffydd*: 293)

Mae Duw wedi maddau ac yn dal i faddau ac felly mae'n rhaid i minnau faddau:

Duw faddeuodd im yn enw Crist,
 cefais fywyd llawn yn enw Crist,
 ac yn enw Crist dof atoch chwi
 i rannu'r cariad a estynnodd i mi.

Carol Owens *cyf*. Iddo Ef (*Caneuon Ffydd*: 424)

Mae Iesu'n fy ngwadd a'm galw, i'm golchi'n lân a maddau fy mhechodau:

Mi glywaf dyner lais
 yn galw arnaf fi
 i ddod a golchi 'meiau i gyd
 yn afon Calfari.

Lewis Hartsough *cyf*. Ieuan Gwyllt (*Caneuon Ffydd*: 483)

GWEDDIAU

Y cam cyntaf i ddod i'r afael â phechod yw derbyn fod Duw yn Dduw cariad:

Cydnabyddwn, O! Dad, mai hanfod dy fodolaeth yw dy gariad – ‘Duw cariad yw’ – ac o ganlyniad dy fod ti’n ymwneud â’r greadigaeth a bywyd dyn yn ôl llinyn mesur y cariad hwn. Y cariad yma sy’n arwyddo dy berffeithrwydd a’th ogoniant, ac sy’n cael ei amlygu i ni yn dy ofal amdanom a’th ddarpariaeth ar ein cyfer. Cydnabyddwn dy gariad fel cariad diderfyn. Amen.

Eifion Arthur Roberts

Maddau i ni ein bywyd hunanol ac anystyriol ac ymbiliwn am dy faddeuant:

Arglwydd daionus,
 cyffeswn i ni dy siomi,
 i ni fyw’n hunanol ac anystyriol,
 gan fynnu dilyn ein ffordd ein hunain
 ac anghofio anghenion eraill
 a gofynion dy gariad di.
 Ymbiliwn am dy faddeuant
 i’n rhyddhau o’n beiau
 ac am nerth dy Ysbryd
 i fyw yn ôl dy orchmynion
 trwy Iesu Grist, ein Harglwydd. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

Crynhown ein holl bechodau ger dy fron ac erfyniwn am dy faddeuant:

Maddau, O Arglwydd,
 y pethau na wnaethom a’r pethau a wnaethom:
 pechodau’n hieuenctid a phechodau blodau’n dyddiau;
 pechodau’n heneidiau a phechodau’n cyrff;
 ein pechodau dirgel a’n rhai mwy amlwg;
 y rhai a wnaethom mewn anwybodaeth,
 a’r rhai a wnaethom yn fwriadol;
 y rhai y gwyddom amdanynt ac a gofiwn,
 a’r rhai sydd wedi mynd yn angof;

y pechodau yr ydym wedi ceisio’u cuddio oddi wrth eraill,
a’r pechodau hynny sydd wedi gwneud i eraill bechu.
Maddau hwynt i gyd, O Arglwydd. Amen.

John Wesley

Arwain ni i faddau o ddifrif i bawb yn ddiwahân:

O Dduw trugarog a graslon, yr hwn wyt faddeugar y tu hwnt i bob dychymyg o’n heiddo ni, dyro inni, yn ein holl ymwneud â’n gilydd, ysbryd mawrfrydig, a gwna ni’n barod bob amser i faddau i’n gilydd. Dysg ni i gofio na allwn dderbyn dy faddeuant di oni fyddwn yn barod i faddau o’r galon i bawb a wna gam â ni, ac mai felly y profwn ein hunain yn wir blant i ti. Amen.

Llawlyfr Defosiwn

Cofia’r byd yn ei ofidiau a’i drallodion ac arwain ni i faddau:

Gofynnwn ar i ti, yn dy faddeuant, gofio’r byd. Yn swm ei ryfeloedd, yn wyneb anghyfiawnder, yn nioddefaint y diniwed, maddau a thrugarha wrth dy pobl. Ac yn wyneb realiti, gweddiwn ar i ti ein cymell a’n harwain i ymarfer maddeuant yn ein perthynas â’n gilydd yng nghyd-destun ein bywyd fel pobl, fel eglwysi ac fel cymdeithas. Y weithred yma sy’n gyfrwng i adeiladu perthnasau gan roi bod i ymddiriedaeth a goddefgarwch, fel ein bod ni’n arwydd, a’n gweithredoedd yn dangos ôl y maddeuant mwyaf a welodd y byd hwn, sef ym mherson dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist. Amen.

Eifion Arthur Roberts

ADNODAU

Duw yw’r un sy’n maddau fy holl droseddau ac yn fy nghoroni â’i gariad:

Fy enaid, bendithia’r ARGLWYDD, a phaid ag anghofio’i holl ddoniau:
ef sy’n maddau fy holl gamweddau, yn iacháu fy holl afiechyd;

Salm 103: 2–3

Os ydym yn barod i gyffesu ein beiau bydd Duw yn maddau:

Y sawl sy'n dweud ei fod yn y goleuni, ac yn casáu ei gydaelod, yn y tywyllwch y mae o hyd.

1 Ioan 2: 9

Credai'r gwesteion mai Duw yn unig allai faddau pechodau ac felly dyma gefndir eu cwestiwn:

Yna dechreuodd y gwesteion eraill ddweud wrthynt eu hunain, "Pwy yw hwn sydd hyd yn oed yn maddau pechodau?"

Luc 7: 49

Mae Duw yn maddau i ni felly mae'n rhaid i ninnau faddau i eraill:

A maddau inni ein troseddau,
fel yr ym ni wedi maddau i'r rhai a droseddodd yn ein herbyn;

Mathew 6: 12

Y mae'r wraig hon wedi dangos ei chariad at Iesu ac wedi derbyn maddeuant:

"Am hynny rwy'n dweud wrthynt, y mae ei phechodau, er cynifer ydynt, wedi eu maddau; oherwydd y mae ei chariad yn fawr. Os mai ychydig a faddeuwyd i rywun, ychydig yw ei gariad."

Luc 7: 47

Os na fyddwch chi'n maddau, meddai Iesu, fydd Duw chwaith ddim yn maddau i chwi:

Ond os na faddeuwch i eraill eu camweddau, ni fydd eich Tad chwaith yn maddau eich camweddau chwi.

Mathew 6: 15

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Y newydd da yw bod maddeuant i'w gael am fod Iesu'n awyddus i'w ddisgyblion ofyn am faddeuant. Os gofynnwn i Dduw faddau i ni, y prawf o'i faddeuant yw ein bod ni'n awyddus i faddau i eraill. Bydd y disgybl yn cydnabod bod derbyn maddeuant Duw yn arwain wedyn yn anochel at faddau i eraill.

Ond prun yw'r person cryfaf, yr un sy'n medru rheoli ei dymer ynteu'r un sy'n methu gwneud hynny? Os gallwn reoli ein tymer, a gweddïo dros y rhai sy'n gwneud drwg i ni, mae parhad drygioni wedi'i atal. Felly rydym ni'n cael ein galw i faddau.

Nid meddwl yn barhaus am eu pechodau, ond y weledigaeth o sancteiddrwydd Duw sy'n gwneud y saint yn ymwybodol o'u pechodau.

Anthony Bloom

Rhaid dioddef peth a maddau llawer i gadw cariad.

Matthews Ewenni

Mae dyn ar ei orau pan fo'n gweddïo am faddeuant neu'n maddau i eraill.

Mae'r hwn sy'n maddau yn rhoi terfyn ar y cweryla.

Dihareb o Affrica

Er y galon friwedig nid yw Duw yn troi neb i dir anobaith:

Er cwyno lawer canwaith – a gweled

Twyll y galon ddiffaith,

Ni fyn Duw o fewn y daith

Droi neb i dir anobaith.

Robert ap Gwilym Ddu